# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 24 TACHWEDD 2021

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: E.V.Latham, L.Jones, A.R.Lockyer, C.Clement-Williams, D.Jones, M.Harvey, P.A.Rees a/ac P.D.Richards

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, K.Jones, A.Jarrett, M.Shaw, J.Woodman-Ralph, H.Jones a/ac C.Plowman

**Swyddfa Archwillio Cymru:**

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CROESO A GALW'R ENWAU

Croesawodd y Cyng. E V Latham bawb i'r cyfarfod a galwyd yr enwau.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD

Ni wnaethpwyd unrhyw gyhoeddiadau.

## 5. FFRAMWAITH CYDNERTHEDD GWASANAETHAU TYMOR BYR

**Penderfyniadau:**

**<u>I'w rhoi ar waith ar unwaith</u>**

1. Sefydlu cronfa wrth gefn benodol gwerth £2 filiwn o fewn y terfyn arian a gymeradwywyd eisoes ar gyfer 2021/2022 i roi'r mesurau a nodir yn yr adroddiad hwn ar waith er mwyn lliniaru'r risg na fydd y cyngor yn gallu cynnal gwasanaethau hanfodol oherwydd gallu annigonol y gweithlu.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Gydraddoldeb a Gwasanaethau Corfforaethol ddefnyddio'r gronfa wrth gefn at y dibenion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn.

**<u>Rheswm dros y penderfyniadau:</u>**

Sicrhau bod y cyngor yn rhoi mesurau lliniaru ar waith i alluogi cynnal gwasanaethau hanfodol.

**<u>Rhoi Penderfyniadau ar Waith:</u>**

Roedd y Cynghorydd Rahaman, y Cadeirydd Craffu, yn cefnogi rhoi'r penderfyniad ar waith ar unwaith.

Mae'r penderfyniad i'w roi ar waith ar unwaith ac nid yw'n amodol ar y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn.

6. **<u>ADRODDIAD MONITRO'R CYLLIDEB GYFALAF 2021/2022</u>**

Nododd yr Aelodau nad oedd unrhyw wybodaeth yn y rownd pennu cyllideb flaenorol wedi amlygu y byddai tanwariant yng nghyllideb y flwyddyn gyfredol hon.

**<u>Penderfyniadau:</u>**

Nodi cynnwys yr adroddiad hwn mewn perthynas â sefyllfa alldro'r gyllideb ragamcanol gyfredol.

Cymeradwyo'r trosglwyddiad arian nad yw eisoes wedi'i gynnwys gan ddirprwyaethau swyddogion fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

8. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau arian wrth gefn fel y nodwyd yn y adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Diweddaru cyllideb y cyngor ar gyfer trosglwyddiadau a symudiadau o ran arian wrth gefn, yn unol â chyfansoddiad y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei weithredu ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul 28 Tachwedd 2021.

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2021/2022

**Penderfyniadau:**

1. Cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ddiweddaredig ar gyfer 2021/2022, sef cyfanswm o £82.410m, gan gynnwys y newidiadau i'r gyllideb a nodir yn Atodiad 2, i'r cyngor.

2.Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 30 Medi 2021.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Cydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo cyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru rhagamcanion Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/2022.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei weithredu ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sul 28 Tachwedd 2021.

## 8. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**